



CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Gwener, 24 Gorffennaf 2020 am 3pm – Ar-lein.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M. Adams	Y Cynghorydd R. Bevan
Y Cynghorydd H. Boggis	Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd S. Bradwick	Y Cynghorydd J. Brencher
Y Cynghorydd G. Caple	Y Cynghorydd A. Cox
Y Cynghorydd A. Crimmings	Y Cynghorydd M. Diamond
Y Cynghorydd J. Edwards	Y Cynghorydd J. Elliott
Y Cynghorydd S. Evans	Y Cynghorydd M. Forey
Y Cynghorydd A. Fox	Y Cynghorydd E. George
Y Cynghorydd D. Grehan	Y Cynghorydd M. Griffiths
Y Cynghorydd L. Hooper	Y Cynghorydd G. Hopkins
Y Cynghorydd G. Hughes	Y Cynghorydd J. James
Y Cynghorydd P. Jarman	Y Cynghorydd L. Jones
Y Cynghorydd W. Jones	Y Cynghorydd R. Lewis
Y Cynghorydd W. Lewis	Y Cynghorydd C. Leyshon
Y Cynghorydd A. Morgan	Y Cynghorydd S. Morgans
Y Cynghorydd M. Norris	Y Cynghorydd D. Owen-Jones
Y Cynghorydd S. Pickering	Y Cynghorydd M. Powell
Y Cynghorydd S. Rees	Y Cynghorydd A. Roberts
Y Cynghorydd G. Stacey	Y Cynghorydd G. Thomas
Y Cynghorydd M. Weaver	Y Cynghorydd M. Webber
Y Cynghorydd E. Webster	Y Cynghorydd D. Williams
Y Cynghorydd J. Williams	Y Cynghorydd T. Williams
Y Cynghorydd R. Yeo	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr B. Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G. Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N. Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A. Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

Eraill oedd yn bresennol

Yr Athro Marcus Longley – Cadeirydd y Bwrdd Iechyd
Dr Sharon Hopkins - Prif Weithredwr Dros Dro'r Bwrdd Iechyd
Dr Val Wilson, Cyfarwyddwr Mamolaeth
Dr Nick Lyons - Cyfarwyddwr Meddygol

163 Ymddiheuriadau

Cafodd ymddiheuriadau eu derbyn am beidio â bod yn bresennol gan y Cyngorwyr S. Belzak, A. Calvert, A. Chapman, J. Cullwick, G.R. Davies, A. Davies-Jones, L. De Vet, S. Evans, M. Fidler Jones, H. Fychan, E. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, P. Howe, G. Jones, K. Jones, K. Morgan, W. Owen, S. Powell, S. Rees-Owen, J. Rosser, E. Stephens, M. Tegg, W. Treeby, R.K. Turner, L. Walker, G.D. Williams, C. Willis a Mr C. Bradshaw (Prif Weithredwr).

164 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant personol canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – “Mae fy mab yn feddyg ac yn gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple – “Rwy'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans – “Rwy'n gweithio i'r GIG”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey – “Rwy'n gyn-gynrychiolydd Aelod Etholedig ar y Bwrdd Iechyd”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman – “Rwy'n gyn-aelod o Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo – “Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Ysbyty'r Tywysog Siarl”

165 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod ac eglurodd y bu cais i estyn gwahoddiad i'r Bwrdd Iechyd, yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor ym mis Chwefror 2020, i roi cyflwyniad mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor cyn toriad yr haf. Esboniodd y Cadeirydd fod y Bwrdd Iechyd wedi cytuno i fod yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y penderfyniad diweddar mewn perthynas â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, y sefyllfa barhaus mewn perthynas â'r Gwasanaethau Mamolaeth a'r sefyllfa mewn perthynas â phandemig Covid-19.

Dywedodd y Cadeirydd, gan fod gweithredu'n rhithwir yn wahanol iawn o ran sut mae'r Aelodau'n cyfathrebu, o'i gymharu â bod yn bresennol yn siambr y Cyngor, roedd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ymgysylltu ag Arweinwyr Grŵp ynghylch cymryd yr awenau ar ran eu Haelodau Grŵp priodol.

Nododd y Cadeirydd fformat y cyfarfod. Yn dilyn y cyflwyniad gan y Bwrdd Iechyd, byddai Arweinydd y Cyngor, ac yna Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid ac yna'r Cynghorydd Powell a'r Cynghorydd James, yn ymateb ac yn cyflwyno eu sylwadau ar ran eu haelodau. Ar ddiwedd cyfraniad pob Arweinydd Grŵp, byddai cydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd yn cael eu gwahodd i ymateb.

Pwysleisiodd y Cadeirydd nad bwriad y cyfarfod oedd cynnal sesiwn holi ac ateb ond yn hytrach, i dderbyn cyflwyniad. Pe bai amser yn caniatáu, bydd gofyn i Arweinydd y Cyngor gau'r ddaol.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau o Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a'u cyflwyno –

- Yr Athro Marcus Longley (Cadeirydd)
- Dr Sharon Hopkins (Prif Weithredwr Dros Dro)
- Roedd ymddiheuriad wedi cael ei dderbyn gan Greg Dix (Cyfarwyddwr Nyrsio) felly roedd Val Wilson, Cyfarwyddwr Mamolaeth yn bresennol yn ei le
- Nick Lyons (Cyfarwyddwr Meddygol)

Rhoddodd yr **Athro M Longley** ei ddiolchiadau i'r Llywydd am y gwahoddiad i annerch y Cyngor. Cyhoeddodd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Prif Weithredwr dros dro, Sharon Hopkins, a fydd yn ymddeol y mis nesaf (bydd ei holynydd yn dechrau ar 14 Medi 2020). Nododd yr Athro Longley y tri mater allweddol sydd wedi newid ers y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror 2020:-

Pandemig Coronafeirws – Mae pandemig Coronafeirws wedi bwrw cymunedau Cwm Taf Morgannwg yn galetach na llawer o gymunedau eraill. Mae'n bodoli yn y gymuned o hyd a bydd e gyda ni am gryn amser i ddod. Mae wedi achosi problemau economaidd a chymdeithasol yn ein cymunedau. Talodd yr Athro Longley deyrnged i'r staff a'r holl weithwyr allweddol o'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor am eu dewrder a'u hyblygrwydd sy'n haeddu ein cydnabyddiaeth a'n diolchgarwch. Cyfeiriodd at y teimlad o undod a chefnogaeth y mae'r cymunedau wedi'u dangos i'r GIG a'i staff a chydnabod y cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar bob lefel, sydd wedi bod yn rhagorol.

Dywedodd yr Athro Longley nad oes unrhyw un bellach yn siarad am gwmp y GIG, sy'n dal i weithredu ar oddeutu dwy ran o dair o'i allu cyn y pandemig yn unig ond mae staff yn gweithio'n galed i aildechrau gwasanaethau cyn gynted â phosibl, ond maen nhw'n cydnabod y bydd hyn yn cymryd peth amser.

Cyfeiriodd yr Athro Longley at benderfyniad pwysig y Bwrdd Iechyd i gadw'r adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar agor. Ar ran y Bwrdd Iechyd diolchodd i bawb sy'n ymwneud â newid rhagolygon yr adran o dan arweiniad Dr Nick Lyons a Dr Sharon Hopkins a'r miloedd o bobl sydd wedi ysbrydoli ac ysgogi'r ymdrechion yma trwy gyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau angerddol.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa fod y Bwrdd Iechyd wedi annerch y Cyngor ar sawl achlysur i drafod Gwasanaethau Mamolaeth, ac ers mis Chwefror, mae'r Panel Trosolwg Annibynnol wedi adrodd ar y cynnydd parhaus y bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn ymdrin ag ef er budd yr Aelodau.

Anerchodd **Val Wilson, y Cyfarwyddwr Nyrsio**, yr Aelodau ynghylch y Gwasanaethau Mamolaeth o fewn Cwm Taf Morgannwg.

Er gwaethaf lefelau uchel o salwch sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, mae'r gwasanaeth wedi'i gynnal er ei fod yn gorfod gweithio mewn ffurf wahanol. Cafodd canolfan enedigaeth Tirion dan arweiniad y

bydwagedd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ei wrthod i ddechrau ond parhaodd y gwasanaeth i ddarparu athroniaeth gofal yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a chafodd nifer y genedigaethau dan arweiniad bydwreigiaeth ei chynnal i adborth cadarnhaol. Bydd canolfan Tirion yn ailagor ar 5 Hydref 2020 ar yr un ffurf â'r un cyn pandemig Covid.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Nyrsio fod proses recriwtio lwyddiannus yn Ne Cymru wedi bod ar waith a chynghorodd fod nifer o ymgeiswyr o safon uchel wedi'u penodi i'r gwasanaeth (safle Ysbyty'r Tywysog Siarl). Mae salwch tymor hir wedi cael ei leihau i lai na 10% am y tro cyntaf ac mae llai o salwch sy'n gysylltiedig â Covid yn bresennol ar hyn o bryd. Mae staff bellach yn cael eu hadleoli i wardiau anghlinigol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Nyrsio fod y gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n arloesol gyda theuluoedd yn ystod y pandemig, gan gynnig dosbarthiadau addysg cyn-geni ar-lein a chynnal sesiynau cwrdd a chyfarch â staff. Bu rhywfaint o waith gwella a chafodd 41 o argymhellion eu symud yn eu blaenau, ac mewn cyfarfod pellach ar y 24 Awst, bydd 15 argymhelliad arall yn cael eu cyflwyno sy'n dyst i waith caled pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth er gwaethaf Covid-19.

Cafodd adborth rhagarweiniol ei dderbyn gan Banel Trosolwg y Gwasanaethau Mamolaeth ac mae llythyrau at y teuluoedd sy'n cael eu heffeithio yn cael eu paratoi gyda phecynnau gofal yn eu lle wrth i'r teuluoedd ddechrau derbyn eu llythyrau. Mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r adolygiad. Mae'r Cabinet Clinigol wedi'i integreiddio'n llawn â Paediatricwyr, Bydwagedd a Staff Theatr i fanteisio i'r eithaf ar y dysgu sydd wedi deillio o'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth. Mae gwaith hefyd wedi bod yn mynd rhagddo i gryfhau proses integreiddio'r gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth trwy gyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a dysgu rhwng y ddau faes.

Cyflwynodd **Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol**, drosolwg o'r cynnydd mewn perthynas â'r Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Cyfeiriodd at gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2020 pan oedd llawer o waith i'w wneud ar y pryd ond cyfrannodd dyfodiad Pandemig Coronafeirws at y penderfyniad i gadw'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar agor wrth iddi ddod yn amlwg bod gweithredu gofal brys o ddau safle yn anymarferol.

Ers y cyfarfod diwethaf, mae proses recriwtio lwyddiannus wedi bod ar waith sydd wedi golygu bellach bod 4.5 Ymgynghorydd a 7 Meddyg gradd ganol sy'n gweithio yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sy'n dyst i waith y timau hynny sy'n ymwneud â'r broses recriwtio. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i wasanaeth 24/7 dan arweiniad Ymgynghorwyr yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar gyfer yr Adran Achosion Brys ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Paediatric a fydd yn darparu sylfaen i adeiladu'r gwasanaethau clinigol eraill ar draws y Bwrdd Iechyd.

Dywedodd Dr Lyons mai dyma ddechrau'r gwaith y mae angen ei wneud a thalodd deyrnged i'r cymunedau a'r trigolion a gyfrannodd at y nifer fawr o gyfarfodydd cyhoeddus lle cafodd trafodaethau a negeseuon pwerus eu trosglwyddo ynghylch dyfodol y Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys, a siaradodd am werth anhygoel gweithio gyda'r boblogaeth. Pwysleisiodd bwysigrwydd gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr cymuned allweddol yn y

dyfodol a dod â gwasanaethau yn nes at adref fel yr Unedau Mân Anafiadau a fydd yn lleddfu'r pwysau ar Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys eraill. I gloi, dywedodd Dr Lyons y byddai diweddariad yn cael ei roi mewn cyfarfod Bwrdd ar 30 Gorffennaf gydag argymhellion ynghylch sut i symud ymlaen.

Ategodd **Dr Sharon Hopkins, Prif Weithredwr Dros Dro**, ddiolchiadau Cadeirydd y Bwrdd Iechyd i holl staff allweddol y sector cyhoeddus a staff y Bwrdd Iechyd am eu gwytnwch yn ystod Pandemig Covid. Cydnabu Dr Hopkins ymateb y gymuned ar y cyd i Covid trwy gyfnod clo effeithiol, golchi dwylo a chadw pellter cymdeithasol a fydd yn parhau i fod yn faterion pwysig wrth symud ymlaen.

Dywedodd Dr Hopkins fod y pandemig wedi newid y ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu wrth ymateb i Covid i ddechrau. Roedd rhaid ailosod llawer o wasanaethau i sicrhau'r ffordd fwyaf effeithiol o gadw trigolion, cymunedau a staff mor ddiogel â phosibl gan sicrhau pellter cymdeithasol ac atal heintiau. Mae hyn wedi golygu bod gwahanol arferion megis sesiynau ymgynghori rhithwir wedi cynyddu'n aruthrol. Mae pob Meddyg Teulu wedi'i gysylltu â system o'r enw 'Consult Anywhere' sy'n caniatáu mynediad iddyn nhw at arbenigwyr ymgynghorol wrth gynnal ymgynghoriadau.

Rhoddodd Dr Hopkins sicrwydd i'r Aelodau y bydd Covid-19 a'i drosglwyddiad yn parhau i gael eu hadolygu fel y gall arbenigwyr ddod i ddeall sut mae'r feirws yn ymddwyn, yr hyn sy'n ddiogel a ddim yn ddiogel i'w wneud, sut bydd gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu yn y dyfodol a sut y bydd angen i brotocolau barhau i newid. Yn ystod Covid, gostyngodd atgyfeiriadau o 72% ond maen nhw'n cynyddu'n raddol ac erbyn hyn, maen nhw i lawr 35% yn unig o'u cymharu â'r un amser y llynedd. I ddechrau, gostyngodd gweithgaredd cleifion allanol 48% ond mae bellach wedi cynyddu i 80%. O'r holl atgyfeiriadau newydd mae 30% yn gweithredu drwy sianeli rhithwir.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu'r gofal i gleifion canser ac yn gweithio'n galed i ddod â gwasanaethau yn ôl i'w capasiti cyn gynted ag sy'n ddiogel bosibl, gan ganolbwyntio ar y rheini ag anghenion gofal canser brys. Mae ymyriadau gweithredol wedi cael eu hailgyflwyno sy'n caniatáu llawfeddygaeth canser fwy cymhleth ar safleoedd yn yr hyn sy'n cael ei alw'n 'Covid-Light' neu 'Green Islands'.

Gofal Sylfaenol – Mae Fferyllfeydd a Meddygfeydd Deintydd ar agor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ond dydyn nhw ddim yn gweithredu'n llawn hyd yma.

Iechyd Meddwl – Mae gweithio gyda lles meddyliol a'i gefnogi yn ystod Covid wedi bod yn heriol gan fod lefelau pryder ac iselder, yn anochel, wedi cynyddu. Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi cael eu cynnal drwyddi draw er bod cleifion wedi gwneud gwahanol ddewisiadau ynglŷn â chael mynediad at ofal. Cafodd sesiynau cwnsela wyneb yn wyneb gyda chleifion iechyd meddwl eu hatal i ddechrau ond mae'r nifer yn cynyddu erbyn hyn. Mae Grŵp Ymateb Iechyd Meddwl, sy'n cynnwys y 3 Awdurdod Lleol partner a'r 3^{ydd} sector bellach yn adrodd i'r fforwm partneriaeth lleol a'r gobaith yw y bydd y lefel yma o weithio mewn partneriaeth integredig yn parhau. Mae chwe ymarferydd iechyd meddwl newydd yn cael eu recriwtio i Ofal Sylfaenol, ac mae tri ohonynt nhw eisoes wedi'u penodi i'r maes cynyddol bwysig yma.

Wrth edrych ymlaen, cyfeiriodd Dr Hopkins at nifer o fesurau ataliol megis

Rhaglen Llywodraeth Cymru sef Profi, Orlhain, Diogelu ar draws Cwm Taf Morgannwg mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol, Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tydfil ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhaglen yn cael ei harwain, mewn partneriaeth, gan Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned a'i garfan, a hyd yma mae'r ymateb yn y gymuned i'r galwadau sy'n gofyn i'r rhai sy'n cael eu heffeithio ynysu wedi bod yn dda iawn. Mae profion gwrthgyrff hefyd wedi dechrau. I gychwyn roedd hyn gydag athrawon a gweithwyr allweddol eraill megis gweithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal cymdeithasol. Gyda'r tebygolrwydd y bydd Covid yn dod yn fwy cyffredin yn ystod misoedd y gaeaf gyda chlystyrau neu achosion yn ymddangos, mae angen gwneud cymaint o waith cynllunio a pharatoi â phosibl ac mae ymdrech aruthrol yn cael ei gwneud o ran y rhaglen brechu rhag y fflw. Gyda'i gilydd, bydd y rhaglen brechu torfol yn paratoi trigolion cystal â phosibl ar gyfer misoedd y gaeaf sydd o'n blaenau ni.

I gloi, dywedodd Dr Hopkins mai'r bwriad yw cadw'r ysbyty maes ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda chapasiti o hyd at 480 o welyau, sydd ar gael ar gyfer brechu / cynnal profion gwrthgyrff neu fel ardal i gleifion allanol.

Croesawodd **Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Andrew Morgan** y sylwadau ynghylch y bartneriaeth werthfawr rhwng Cyngor Merthyr, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ac estynnodd ei ddolch i'r Bwrdd am y gwaith agos, y cyfathrebu effeithiol a'r cyfarfodydd wythnosol sydd wedi parhau trwy gydol pandemig Covid. Dywedodd yr Arweinydd fod y Rhaglen Profi Orlhain a Diogelu ar draws Cwm Taf Morgannwg mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol, Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei harwain gan Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned y Cyngor. Mae'r carfanau Profi, Orlhain a Diogelu wedi bod yn brysur iawn wrth iddyn nhw gysylltu â'r achosion sydd wedi'u cadarnhau ac mae'r broses wedi cael derbyniad da gan aelodau'r cyhoedd.

Canmolodd yr Arweinydd y penderfyniad a wnaed yn ddiweddar mewn perthynas â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn enwedig y prosesau recriwtio sydd wedi bod ar waith i sicrhau y bydd y gwasanaeth yn un cynaliadwy wrth symud ymlaen. Gofynnodd yr Arweinydd i'r Bwrdd roi diweddariad i'r Cyngor mewn perthynas â chapasiti a rôl y ddarpariaeth paediatric a gafodd ei gohirio o fis Medi diwethaf.

Dywedodd yr Arweinydd bod pryder wedi'i godi'n flaenorol gan y Cyngor mewn perthynas â gweithrediad Ysbyty Cwm Cynon ac Ysbyty Cwm Rhondda a sut mae gyda nhw'r potensial i leddfu'r pwysau ar Wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys. Gofynnodd yr Arweinydd am sicrwydd gan y Bwrdd Iechyd y bydden nhw'n ymgysylltu ac ymgynghori â'r Cyngor ynglŷn â dyfodol y safleoedd Mân Anafiadau a sut bydd modd iddyn nhw gynorthwyo trigolion i gael mynediad at wasanaethau lleol.

Estynnodd yr Arweinydd wahoddiad ffurfiol i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i ddod i gyfarfod Cyngor yn y dyfodol cyn diwedd blwyddyn y Calendr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Covid-19 ac effaith pwysau'r gaeaf ar ofal cymdeithasol. Er gwaethaf beirniadaeth yn y gorffennol o Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg gan Gyngor RhCT, roedd yr Arweinydd yn gobeithio y byddai gwell hyder yn y Bwrdd Iechyd. A'r Prif Weithredwr newydd yn ei swydd yn fuan, diolchodd Arweinydd y Cyngor yn ffurfiol i Dr Sharon Hopkins cyn iddi ymddeol.

Mewn ymateb i sylwadau'r Arweinydd ac i egluro'r sefyllfa, cadarnhaodd Dr Nick

Lyons na fydd y Gwasanaethau Paediatrig yn symud ar 1 Medi yn ôl y cynlluniau. Ychwanegodd nad oedd y model terfynol wedi'i ddiffinio eto ond mae angen i'r model gofal fod yn gynaliadwy a bydd y model yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth trwy'r Panel Partneriaeth ac mae'n ffocws clir i'r Bwrdd Iechyd gyda manylion pellach yn y papur a fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol y Bwrdd.

Y Cynghorydd Jarman

Estynnodd y Cynghorydd Jarman ei diolchiadau personol a diolchiadau Grŵp Plaid Cymru i holl reolwyr a staff Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg am eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn ogystal â staff a gweithwyr allweddol y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Jarman fod Covid-19 wedi bod yn brofiad nad oes yr un ohonon ni eisiau ei ailadrodd ond gydag ail don ar y gorwel, yn hwyr yn yr hydref / ddechrau'r gaeaf, beth fyddai'n cael ei wneud yn wahanol yr eildro, nawr ein bod ni'n gwybod rhagor am Covid-19? Mae honiadau bod cleifion wedi'u rhyddhau o'r ysbyty i'r gymuned ac i mewn i gartrefi gofal heb gael eu profi am Covid-19. Beth oedd y sefyllfa yng Nghwm Taf Morgannwg?

Gofynnodd y Cynghorydd Jarman hefyd pe bai ail don yn digwydd, a fyddai'r adnoddau a'r capasiti sydd ar gael fel arfer yn ddigonol, neu a oes cynlluniau y byddai rhai cyfleusterau ysbyty maes yn cael eu cadw? (Cydnabuwyd bod Prif Weithredwr dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi cadarnhau mai dyna fwriad y Bwrdd, sef y bydd gan bob claf apwyntiad beth bynnag fo'i broblem feddygol).

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jarman at y dystiolaeth gynhwysfawr a amlygwyd gan yr ymgyrch gymunedol ac at farn ddylanwadol iawn y cyhoedd nad oedd modd ei hanwybyddu y tro yma fel y digwyddodd yn 2013 pan gafodd dadl debyg ei anwybyddu gan Bartneriaid Rhaglen De Cymru a wrthododd cadw'r adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg a chytuno â model darparu rhanbarthol arall yn lle hynny. Cafwyd cyflwyniad ar yr unfed awr ar ddeg awr ar gyfer cadw adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg gan y Cadeirydd (ar y pryd) a chyn Brif Weithredwr Cwm Taf sydd bellach wedi'i ddifrio. Cafodd y penderfyniad ei wrthod a dewiswyd y trefniant rhanbarthol a ffefrir yn lle hynny. Roedd Prif Weinidog Cymru ar y pryd hefyd yn Aelod Cynulliad dros Ben-y-bont ar Ogwr. Mae gyda fi amheuan o hyd bod yr ymrwymiad a roddir i gadw darpariaeth damweiniau ac achosion brys 24/7 yn un tymor hir, wedi'i lywio gan farn feddygol yn hytrach na phrofiad gwleidyddol.

Holodd y Cynghorydd Jarman a yw Prif Weithredwr newydd ei benodi Cwm Taf Morgannwg hefyd yn dal sawl swydd ymgynghorydd gyda chwmnïau a oedd yn dal cwmnïau gofal iechyd preifat sy'n elwa o gontractau'r GIG neu ai newyddion ffug yw hyn?

Gofynnodd y Cynghorydd Jarman hefyd am warant absoliwt bod partneriaid Rhaglen De Cymru yn gwbl gefnogol i safbwynt Cwm Taf Morgannwg ynghylch yr adran damweiniau ac achosion brys a bod y Prif Weithredwr wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddor nad yw'r GIG ar werth? Pa werthusiadau sydd wedi'u cynnal ynglŷn â gweithredu'r Rhaglen De Cymru wreiddiol hyd yma a chyngor ynghylch statws y Rhaglen De Cymru gymeradwy? A yw'n ystyried y penderfyniad i ailgyflunio'r adran Damweiniau ac Achosion Brys yn y rhanbarth a beth yw dyfodol y ddarpariaeth Paediatrig? Ydy Rhaglen De Cymru bellach o dan y

pridd?

Gwasanaethau Mamolaeth - Cydnabu'r Cynghorydd Jarman y gwelliannau i'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf Morgannwg a llongyfarchodd y rhai a oedd yn ymwneud â rhoi'r gwelliannau ar waith.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Jarman fod Grŵp Plaid Cymru, fel y dywedwyd eisoes, yn cefnogi galwad am ymchwiliad gan yr heddlu i weld a oedd unrhyw droseddau yn ymwneud â'r sgandal gan gynnwys dynladdiad corfforaethol. Roedd yr Athro Longley wedi cadarnhau yn flaenorol fod trafodaethau gyda'r Heddlu yn parhau. A yw'r trafodaethau hynny wedi arwain at lansio ymchwiliad ffurfiol neu ydy'r trafodaethau yn mynd rhagddyn nhw o hyd neu ydyn nhw wedi dod i ben?

Mae'r Cyngor yma eisoes wedi talu teyrnged i'r teuluoedd dan sylw am eu dewrder am ddweud eu dweud ynglŷn â'r sgandal mamolaeth. Mae angen i'r un teuluoedd hynny wybod a fydd camau pellach yn cael eu cymryd ac maen nhw angen cyfiawnder. Fydd camau disgyblu yn cael eu cymryd neu ydy hyn wedi cael ei roi i un ochr nes bod unrhyw achos troseddol yn dod i ben?

Y Cynghorydd Powell

Estynnodd y Cynghorydd Powell ei ddiolchiadau i aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf am ddod i'r cyfarfod ac am y cyfnod anodd y mae rhaid eu bod wedi'i wynebu cyn ac yn ystod Covid-19.

Cyn gofyn ei gwestiynau i'r Bwrdd gofynnodd am ddarparu ymatebion ysgrifenedig hefyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Powell at adroddiad a gyflwynwyd mewn cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2020 sy'n nodi bod risg o ddychwelyd i batrymau presenoldeb cyn covid-19 yn adran resbiradol Ysbyty Brenhinol Morgannwg a allai beryglu cynaliadwyedd yr adran. Ychwanegodd fod 2 Uned Mân Anafiadau yng Nghymoedd Rhondda a Chynon. Ysbyty Brenhinol Morgannwg yw'r Uned Mân Anafiadau ar gyfer ardal Taf Elái a thu hwnt. Mae nifer fwy o drigolion yn Nhaf Elái a thu hwnt sy'n defnyddio Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Morgannwg Brenhinol fel eu huned mân anafiadau. Oes cynlluniau i sefydlu adran mân anafiadau yn agosach at ochr Pontypridd o'r fwrdeistref?

Gofynnodd y Cynghorydd Powell, os yw Ymgynghorwyr EMI sydd wedi ymddeol yn ddiweddar wedi cael eu recriwtio i weithio yn yr Uned Mân Anafiadau, pa mor hir ydyn nhw'n debygol o barhau i weithio, ac os ydyn nhw'n gweithio am 2 ddiwrnod yr wythnos yn unig, beth sy'n digwydd i'r 5 diwrnod arall?

Gan fod lefelau staffio yn dal i fod yn is na'r lefelau y dylen nhw fod, a chyda chynlluniau wrth gefn a allai gynnwys cau dros nos dros dro i dderbyniadau ambiwlans, sut rydyn ni'n gwybod nad yw adran Damweiniau ac Achosion Brys yn ffordd 'drws cefn' o ddod i drefniant Damweiniau ac Achosion Brys rhan-amser yn unig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sef yr hyn a awgrymwyd yn y cynnig gwreiddiol?

Oes unrhyw gynlluniau i Ysbyty Brenhinol Morgannwg ddod yn Ganolfan Ragoriaeth i'r Henoed Eiddil eu Meddwl? Ydy'r cynlluniau yma wedi'u gohirio neu wedi'u rhoi o'r neilltu?

Profi, Orlhain, Diogelu - Sut rydyn ni'n gwybod ble mae'r mannau mwyaf problemus yn y fwrdeistref? Rydw i wedi clywed nad ydyn ni'n casglu'r wybodaeth honno.

Mae gyda fi ymatebion gan y Bwrdd Iechyd sy'n nodi bod llawer o gleifion wedi'u cludo o ysbytai i gartrefi gofal. Nodwyd bod 309 o unigolion yn ffit yn feddygol i symud i gartrefi gofal rhwng 1 Mawrth a 20 Mai.

Sawl un oedd yn dderbyniadau newydd? Ddim yn gwybod

Sawl un gafodd prawf ar gyfer Covid-19? Cafodd 104 ohonyn nhw brawf (sy'n golygu na phrofwyd 205 yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru). O'r 104 a brofwyd, cafodd 19 o brofion eu prosesu ac roedd 24 ohonyn nhw wedi cael canlyniad positif, ond does dim cofnod o sawl unigolyn oedd wedi marw o'r Coronafeirws. Pam na chynhaliwyd y broses Profi Orlhain Diogelu o'r dechrau i leihau nifer y marwolaethau ar draws Cwm Taf i sicrhau nad oedd RhCT yn rhif un yn y gynghair ar gyfer brigiadau Coronafeirws yn y DU?

Y Cynghorydd James

Talodd y Cynghorydd James deyrnged i staff y GIG am eu hymrwymiad a'u pryder ynghylch lefelau'r straen y mae llawer o staff wedi'u profi yn ystod y cyfnod yma. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwytnwch iechyd meddwl a lles yn fater i'w ystyried wrth symud ymlaen.

Dywedodd y Cynghorydd James mai'r rheswm dros gau'r adran damweiniau ac achosion brys oedd oherwydd anawsterau gyda recriwtio staff - Beth yw hirhoedledd y penderfyniad, gan ystyried bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar system trefnu apwyntiad ar gyfer apwyntiadau damweiniau ac achosion brys. Ydy hyn yn gwneud yr achos yn gryfach am beidio â chael Adran Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr os yw trigolion yn cael eu dargyfeirio i rywle arall?

Cafodd atgyfeiriadau, llawdriniaeth neu driniaeth ar gyfer canser rhai trigolion eu canslo neu'u gohirio yn ystod y cyfnod clo. Pa gamau bydd y Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith hirdymor bosibl ar y cleifion hynny?

Beth yw'r effeithiau tymor hir ar y cleifion hynny sydd wedi profi'n positif am covid-19 o ran, er enghraifft, problemau anadlu neu iechyd meddwl?

Mewn ymateb i un pwynt a wnaed, roedd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn gallu cadarnhau y byddai popeth yn cael ei wneud i sicrhau cynaliadwyedd adran achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg a'i dyfodol. Cytunwyd y byddai ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer yr holl gwestiynau eraill yn dilyn y cyfarfod.

Canmolodd Arweinydd y Cyngor berthynas waith agos leol y Bwrdd Iechyd, asiantaethau trydydd sector, gwirfoddolwyr cymuned, yr awdurdod lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn golygu nad oedd y sefyllfaoedd gwaethaf wedi codi o ran Coronafeirws. Cafodd y cyfyngiad cenedlaethol ar symudiadau effaith, ond gwnaeth yr ymdrechion a wnaed yn lleol wahaniaeth arwyddocaol i drigolion Cwm Taf. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n croesawu presenoldeb y Bwrdd Iechyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod yma i ben am 4.20pm

**Y Cynghorydd S. Powderhill
Cadeirydd**